


# Grŵp 2: goruchwylwyr a rheolwyr

Sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol i bobl yng ngrŵp 2 sydd eisiau gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau.

Cyhoeddwyd gyntaf: 29 January 2025

Diweddariad olaf: 4 February 2025

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/canlyniadau-personol/sefydlur-dull-syn-canolbwyntio-ar-ganlyniadau/nid-hyfforddiant-yn-unig-ymarfer-syn-seiliedig-ar-gryfderau-mewn-gofal-cymdeithasol/nid-hyfforddiant-yn-unig-grŵp-2 am y fersiwn diweddaraf.

**Sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol i bobl yng ngrŵp 2 sydd eisiau gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau.**

Rydyn ni’n argymell bod rheolwyr a goruchwylwyr ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gyfarwydd â dulliau seiliedig ar gryfderau.

Mae goruchwylio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau yn hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'w cydweithwyr a'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Dylen nhw fod wedi gwneud popeth mewn hyfforddiant grŵp 1.

## Pwy sydd yn y grŵp hwn

Mae'r grŵp hwn yn cynnwys unrhyw un sy'n rheoli neu'n goruchwylio rhywun arall.

Gallan nhw fod yn:

- reolwyr llinell
- arweinwyr tîm
- reolwyr gwasanaeth
- oruchwylwyr
- aseswyr ymarfer
- fentoriaid.

## Gwybodaeth

Dylai pawb yn y grŵp hwn deall:

- egwyddorion allweddol ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau a'u rôl mewn goruchwylio
- sut mae egwyddorion allweddol ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau yn hyrwyddo diwylliannau cadarnhaol a lles staff
- sut – ac os – mae polisïau a chanllawiau eu sefydliad yn cefnogi arferion sy'n seiliedig ar gryfderau mewn goruchwyliaeth
- pam ei bod yn bwysig i gynnal ymarfer a hyfforddiant rheolaidd.

Dylen nhw hefyd gwybod y modelau o ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau a'r ymchwil a'r dystiolaeth ddiweddaraf y tu ôl i'r rhain.

## Sgiliau

Dylai pawb yn y grŵp hwn allu:

- defnyddio ymchwil mewn ymarfer bob dydd
- arwain drwy esiampl, a defnyddio arfer sy'n seiliedig ar gryfderau i reoli a goruchwylio staff
- recordio sesiwn oruchwylio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau
- meithrin perthnasoedd cryf, dibynadwy a pharchus gyda phawb y maen nhw'n gweithio gyda nhw, gan gynnwys y bobl y maent yn eu goruchwylio, drwy:
    - ymgysylltu'n amyneddgar â'r person ar ei lefel
    - canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig
    - bod yn sensitif i'w hangenhion a'u profiadau bywyd
    - meddwl am y posibiliadau ar gyfer y person hwnnw
    - cynllunio *gyda* 'r person yn hytrach nag *i'r* person.
- cael sgyrsiau anodd mewn ffordd dosturiol – er enghraifft:
    - wrth eirioli dros hawliau unigolyn pan nad yw pobl eraill yn cytuno

    - yn ystod adolygiadau perfformiad.
- defnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau mewn sesiynau goruchwylio i gytuno ar ganlyniadau clir a darganfod beth sy'n eu cymell
- cefnogi cydweithwyr i ddeall cryfderau a risgiau a datblygu cynlluniau diogelwch
- monitro ansawdd gwaith eu tîm yn unol ag ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau
- defnyddio arferion sy'n seiliedig ar gryfderau i reoli gwasanaethau a gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys arolygwyr
- gwrando ar – ac eirioli dros – pobl eraill sy'n gweithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau.

## Sut i gefnogi pobl yn y grŵp hwn

Gallwch gefnogi pobl yn y grŵp hwn drwy:

- weithio tuag at ddiwylliant cadarnhaol yn eich sefydliad
- weithio i werthoedd ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau.